Page

# Cymru: cyfarfod dirprwyedig Mawrth 2025

01/04/2025
[See all updates](#)
Atodlen o benderfyniadau o dan bwerau dirprwyedig Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer Cymru ar 4 Mawrth 2025.
[Penderfyniadau ariannu](#)

## Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol £10,000 i £250,000

### Hen Gymraeg

Ymgeisydd: Sonal Gajanan Khade

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect tri mis yw hwn sydd â’r nod o atgyweirio ac adfer yr eiddo rhestredig Gradd II yn 7 Stryd Moch, Pwllheli, sydd o dan berchnogaeth breifat.

Penderfyniad: Gwrthod

### Heritage in Your hands

Ymgeisydd: Centre of Sign-Sight-Sound

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect deunaw mis yw hwn sy’n ceisio creu cyfryngau a gwybodaeth hygyrch ar gyfer y gymuned colled synhwyraidd mewn amrywiaeth o safleoedd treftadaeth yng ngogledd Cymru.

Penderfyniad: Gwrthod

### ABERDULAIS COMMUNITY HERITAGE HUB – Turning a Past into a Future for Non-Traditional Volunteering and Employment in Heritage in Neath Port Talbot.

Ymgeisydd: St Giles Trust

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect pymtheg mis (Mawrth 2025 – Mai 2026) sydd â'r nod o adfywio Sgydau Aberdulais trwy ennyn diddordeb y gymuned, gan ganolbwyntio ar recriwtio ac uwchsgilio tîm gwirfoddolwyr amrywiol, yn enwedig y rhai sy’n wynebu adfyd oherwydd tlodi, trosedd a gwahaniaethu, i gyflwyno gweithgareddau treftadaeth gan gynnwys teithiau tywysedig, prosiectau cadwraeth, a digwyddiadau cymunedol.

Penderfyniad: Gwrthod

### Greekscapes – Recording the Hellenic Heritage in South Wales

Ymgeisydd: Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect dwy flynedd yw hwn a fydd yn defnyddio dull a arloeswyd gan Layers of London Project i nodi sut mae cymunedau Groegaidd olynol wedi siapio a dylanwadu ar dde Cymru fodern

a’i thirweddau trefol.

Penderfyniad: Gwrthod

## Dafydd ap Gwilym and Persian Poetry

Ymgeisydd: Gritty Films

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect deuddeg mis (Mawrth 2025 – Mawrth 2026) i ddod â barddoniaeth Gymraeg glasurol i gymunedau rhyng-genhedlaeth ac amrywiol yng Nghaerdydd a’r Cymoedd, gan archwilio gwaith y bardd Dafydd ap Gwilym a’r cysylltiadau â barddoniaeth glasurol o Bersia, yn benodol gwaith Hafez, bardd o’r bedwaredd ganrif ar ddeg.

Penderfyniad: Gwrthod

## Llais Tyisha – Capturing the lost voices of Tyisha, Llanelli to support the redevelopment of the area – Using the history and forgotten buildings by sharing and listening to stories.

Ymgeisydd: Peoplespeakup LTD

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect tair blynedd (Ebrill 2025 – Fawrth 2028) i gofnodi hanes, atgofion a straeon am bum adeilad a safle lleol nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach, o gymuned leol Tyisha yn Llanelli.

Penderfyniad: Gwrthod

## Preserving Our Heritage 2025

Ymgeisydd: Cynon Valley Museum Trust

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect tair blynedd yw hwn sydd â'r nod o ddatblygu cydnerthedd Amgueddfa Cwm Cynon, sydd wedi'i lleoli yn Aberdâr, RhCT, i sicrhau bod y casgliad sydd ganddi'n parhau i dderbyn gofal, bod yn fyw ac yn hygyrch i'r cyhoedd.

Penderfyniad: Gwrthod

## Cynefin: Connecting with Habitats and Heritage at Bwlch Corog

Ymgeisydd: Coetir Anian

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect dwy flynedd yw hwn sydd â'r nod o gadw, cofnodi a deall yn well treftadaeth ddiwylliannol ac anniriaethol Bwlch Corog gyda chyfranogiad y gymuned i ailgysylltu pobl leol â'r dreftadaeth ar garreg eu drws ac ailddatgan y cwlwm rhwng cymuned a thirwedd.

Penderfyniad: Gwrthod

## Preservation of Heritage for the Community

Ymgeisydd: Eglwys Sant Cadog Caerllion

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect deufis yw hwn i lanhau ac adfer rhai o nodweddion treftadaeth allweddol Eglwys Sant Cadog.

Penderfyniad: Gwrthod

### Denbighshire Dunscape

Ymgeisydd: Cyngor Sir Ddinbych, Gwasanaethau Cefn Gwlad

Disgrifiad o'r Prosiect: Prosiect pedair blynedd yw hwn sydd wedi'i leoli yn Nhwyni Gronant, Sir Ddinbych, gyda'r nod o reoli'r safle'n fwy effeithiol, a darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr a phrofiadau addysgol i gymunedau lleol.

Penderfyniad: Gwrthod

## Cynnydd yn y Grant

### Menter Ty'n Llan

Ymgeisydd: Menter T?'n Llan Cyfyngedig

Penderfyniad: Dyfarnu Cynnydd o £133,537 yn y Grant i wneud cyfanswm grant o £1,842,993.

### The Trinity Centre – Sanctuary for All

Ymgeisydd: Cardiff Methodist Circuit

Penderfyniad: Dyfarnu Cynnydd o £244,135 yn y Grant i wneud cyfanswm grant o £1,136,135. Cytuno ar newid yng nghanran y grant o 36% i 35.86%.